



Dŵr i fyw

Amser gofynnol

45 munud

Amcanion

- Deall fod dŵr yn rhan hanfodol o'n bywydau, nid oes gwahaniaeth pwy ydym ni, neu ymhle'r ydym yn byw.
Deall canlyniadau posibl prinder dŵr a diffyg glanweithdra.

Byddwch angen

Sleidiau PowerPoint Dŵr i fyw

Copïau printiedig o

- Sleid 2 – 'beth mae dŵr yn ei olygu i mi'
- Sleidiau 4-10, yn dangos plant yn Niger

Beth i'w wneud

Rhan 1

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am yr holl ffyrdd rydym yn defnyddio dŵr, ac mewn parau, ysgrifennu rhestr.

Neu, ar y llaw arall, chwaraewch gêm feimio e.e. meimiwch olchi eich dwylo a gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth yw'r weithred. Caiff y sawl sy'n dyfalu'n gywir feimio'r gweithgaredd nesaf sy'n gysylltiedig â defnyddio dŵr, ac yn y blaen.

Yna gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu cyrraedd adref heno heb gyflenwad dŵr. Gofynnwch 'Sut byddai bod heb ddŵr yn effeithio arnoch chi a'r bobl o'ch cwmpas?'

Ysgrifennwch eu hawgrymiadau cychwynnol ar y bwrdd gwyn. A yw eu hawgrymiadau'n gysylltiedig? Ydi un awgrym yn arwain i'r llall? Gofynnwch i'r disgyblion lunio saethau rhwng y canlyniadau, gan egluro pam y maent yn tybio eu bod yn gysylltiedig.

Rhan 2

Dosbarthwch gopïau printiedig o sleid 2 a gofynnwch i'r disgyblion ei lenwi, yn esbonio 'beth mae dŵr yn ei olygu i mi'.

Yn awr eglurwch eich bod fel dosbarth am edrych ar luniau a straeon gan blant o Niger. Niger yw'r ail wlad dlotaf yn y byd, sydd wedi cael ei heffeithio yn ystod y blynyddoedd diweddar gan lifogydd a sychder. Mewn rhai ysgolion mae'n ofynnol i'r plant gasglu dŵr o'r afon gan nad oes pypiau yn yr ysgol.



Edrychwch ar sleid 4 fel dosbarth. Mae Alhassan yn 13 mlwydd oed, ac y mae'n hel gwartheg i'r afon i yfed dŵr. Fel dosbarth, trafodwch pam byddai Alhassan yn credu fod dŵr yn bwysig. Pam byddai sychder yn broblem?

Rhannwch y disgyblion mewn grwpiau o 2-6. Dosbarthwch gopïau o sleidiau 4-10, gan roi un i bob grŵp. Darlunnir yn y taflenni bobl ifanc Niger yn defnyddio dŵr, gyda pheth gwybodaeth gefndirol. Mae swigen araith wag i'r disgyblion ei llenwi. Eu tasg yw dychmygu beth mae'r plant hyn o Niger yn ei ddweud am ddŵr. Gofynnwch i'r disgyblion drafod eu hatebion cyn cwblhau'r taflenni.

Pan fydd y disgyblion wedi ysgrifennu eu syniadau, gallwch drafod eu hatebion drwy ddefnyddio sleidiau 4-10 ar PowerPoint. Gallwch arddangos eu gwaith yn y dosbarth a chyfeirio'n ôl ato trwy gydol yr Wythnos Ddŵr er mwyn eu hatgoffa o bwysigrwydd dŵr.

Trafodwch gyda'r grŵp beth mae'r disgyblion wedi ei ddysgu am ddŵr.